Adolygiad thematig o

# Benwythnosau yn y carchar

gan Brif Arolygydd Carchardai EM

Mawrth 2023



# Cynnwys


Cyflwyniad……………………………………………………………………………… 3

Pryderon ………………………………………………………………………………… 5

Prif ganfyddiadau ……………………………………………………………………… 6

Atodiad I Methodoleg…………………………………………………………… 18

Atodiad II Geirfa……………………………………………………………………… 19

# Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau fel arfer yn cael eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond mae carcharorion, wrth gwrs, yn cael eu cadw am saith diwrnod yr wythnos. Roedd canfyddiadau ein harolygon dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod angen craffu'n fanylach ar eu triniaeth a'u hamodau mewn carchardai ar benwythnosau.

Ers peth amser, rydym wedi bod yn adrodd ar y cyfnod gormodol o amser y mae carcharorion yn dal i'w dreulio dan glo yng nghelloedd y carchar er gwaethaf llacio cyfyngiadau'r pandemig. Ond mae'r syrthni ôl-COVID hwn ar ei waethaf ar benwythnosau. O blith dros 6,000 o garcharorion a arolygwyd yn 2022–23, dywedodd 60% o ddynion wrthym eu bod yn treulio llai na dwy awr o'u cell ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul arferol, o'i gymharu â 42% yn ystod yr wythnos. Roedd hyn fwy na dwywaith y gyfran yn y flwyddyn cyn y pandemig (28%). Roedd yr effaith ar fenywod yn y carchar hyd yn oed yn fwy amlwg; roeddent bedair gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael llai na dwy awr allan o'u celloedd ar benwythnosau. Cafodd dwy ran o dair o fenywod eu datgloi am lai na dwy awr ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, o'i gymharu â 36% ar ddiwrnod arferol yn ystod yr wythnos.

I gael rhagor o wybodaeth am brofiad carcharorion ar benwythnosau, fe wnaethom ni gynnal 11 o ymweliadau undydd dirybudd naill ai ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul ag 11 o garchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr. Dewiswyd y safleoedd fel bod ystod o wahanol leoliadau daearyddol a mathau o garchar o ran eu swyddogaeth yn cael eu cynrychioli. Ym mhob sefydliad, fe wnaethom ofyn am wybodaeth am y drefn a staffio, arolygu gwahanol rannau o'r carchar, cynnal archwiliadau ar yr adain, cynnal grwpiau ffocws lle bo hynny'n bosibl a siarad â charcharorion am eu profiad o'r drefn ar benwythnos.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o garcharorion yn treulio o leiaf 21 awr y dydd dan glo yn eu celloedd ar y penwythnos – mewn 10 o'r 11 carchar y buom yn ymweld â nhw, gallai'r rhan fwyaf o garcharorion ddisgwyl bod allan o'u celloedd am hyd at 2.5 awr y dydd. Yn yr achosion gwaethaf, dim ond 45 munud i awr a gafodd carcharorion ac, mewn un carchar, ni chawsant eu datgloi o gwbl am un o'r ddau ddiwrnod ac eithrio i gasglu eu prydau bwyd. Roedd llyfrgelloedd ar gau ar benwythnosau, ac nid oedd llawer o garcharorion yn cael fawr o amser, os o gwbl, yn yr awyr iach ac nid oeddent hyd yn oed yn gallu cael cawod. Hyd yn oed pan oedd carcharorion yn cael eu datgloi am gyfnod cyswllt, roedd offer hamdden wedi torri ac ni ellid ei ddefnyddio, a doedd dim digon o weithgareddau i garcharorion allu ymgysylltu yn adeiladol. Ynghyd â'r amser cyfyngedig iawn allan o'r gell yn ystod yr wythnos, dywedodd carcharorion wrthym fod hyn wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles. I garcharorion a oedd yn ei chael hi'n anodd, prin oedd y cyfleoedd i gael sylw aelod o staff heb bwyso ar eu cloch galw mewn argyfwng.

Dydd Sadwrn a dydd Sul yw dyddiau'r wythnos pan fydd y staff mewn carchardai ar ei lefel isaf fel arfer ac mae presenoldeb y rheolwyr ar ei isaf. Roedd rhai o'r carchardai y buom yn ymweld â nhw yn ei chael hi'n anodd ymdopi â diffyg acíwt o ran swyddogion carchar, a gwelsom fod staff rheng

flaen yn gweithio'n eithriadol o galed i ddarparu hyd yn oed cyfundrefn gyfyngedig iawn dros y penwythnos. Mewn rhai carchardai, fodd bynnag, gwelsom gyfleoedd a gollwyd i ryddhau carcharorion am gyfnod hirach ac i ymgysylltu'n fwy pwrpasol; roedd arferion a gyflwynwyd yn ystod y pandemig i ryddhau carcharorion mewn grwpiau bach yn unig ac am gyfnod byr yn dal ar waith.

Mae lefelau o weithgarwch pwrpasol fel arfer yn ddigon gwael yn ystod yr wythnos, ond mae'r gyfres hon o arolygiadau carchar ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn dangos bod gwaddol y pandemig yn parhau i lesteirio gweithgarwch i gefnogi carcharorion i ddatblygu sgiliau, ymgysylltu ag eraill a lleihau eu risg o aildroseddu, a bod hyn yn fwyaf amlwg ar benwythnosau. Ar adeg pan fyddwn yn poeni fwyfwy am hunan-niweidio, mae'r effaith gronnol y mae cyfnodau estynedig dan glo yn ei chael ar les ac iechyd meddwl carcharorion hefyd yn peri pryder mawr. Wrth i bwysau gan boblogaethau carchardai gynyddu, ni all y sefyllfa ond gwaethygu oni bai fod y gwasanaeth carchardai'n gweithredu'n awr.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EM
Mawrth 2023

# Pryderon

Yn ystod yr adolygiad thematig hwn, gwnaethom nodi'r pryderon canlynol.

1. **Mae tua 60% o garcharorion yn cael llai na dwy awr y tu allan i'r gell bob dydd ar benwythnosau.** Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu cloi am gyfnod hirach nag yn ystod yr wythnos a bod y sefyllfa'n waeth na chyn y pandemig. Mae hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

2. **Nid oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu datgloi am ddigon o amser ar benwythnosau i gyflawni tasgau domestig hanfodol, fel cael cawod, glanhau eu cell, gwneud galwadau ffôn, a chyflwyno ceisiadau.**

3. **Pan oedd amser wedi'i ddatgloi yn cynnwys cyfnod o gymdeithasu ar benwythnosau, roedd carcharorion yn cael eu gadael heb fawr i'w wneud**. Ychydig iawn o gyfle oedd i gymdeithasu â chyfoedion, roedd offer hamdden (fel byrddau pŵl) wedi torri neu ni ellid eu defnyddio, ac ychydig o weithgareddau cyfoethogi oedd ar gael, fel garddio, cerddoriaeth neu gemau.

4. **Roedd y cyfleoedd i garcharorion gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol – ar gyfer ymarfer corff a'u helpu i ddatblygu sgiliau i baratoi ar gyfer rhyddhau – yn gyfyngedig iawn os oeddent yn bodoli o gwbl.** Roedd mynediad i'r gampfa yn anghyson ac roedd llyfrgelloedd ar gau ar benwythnosau.

5. **Ar benwythnosau, nid oedd amser yn yr awyr agored i garcharorion yn cael ei warantu, a oedd yn niweidiol i'w lles.**

# Prif ganfyddiadau

## Gormod o amser dan glo

1.1 O'r carcharorion a arolygwyd gennym yn 2022–23, dywedodd 60% o ddynion wrthym eu bod yn treulio llai na dwy awr o'u cell ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul arferol, mwy na dwbl y gyfran yn y flwyddyn cyn y pandemig (28%). Roedd yr amser allan o'r gell hefyd yn llawer llai nag yn ystod yr wythnos, pan ddywedodd 42% o ddynion eu bod yn treulio llai na dwy awr heb eu cloi. Roedd yr effaith ar fenywod yn y carchar hyd yn oed yn fwy amlwg; roeddent bedair gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael llai na dwy awr allan o'u celloedd ar benwythnosau.

**Ffigur 1: Carcharorion yn dweud eu bod fel arfer yn treulio llai na dwy awr o'u cell ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul arferol, 2018-19 i 2022–23, mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr.**




Ffynhonnell: Arolygon carcharorion Arolygaeth Carchardai EF

1.2 Cadarnhawyd hyn gan ein harsylwadau ein hunain. Mewn 10 o'r 11 carchar y buom yn ymweld â nhw, gallai'r rhan fwyaf o garcharorion ddisgwyl bod allan o'u celloedd am hyd at 2.5 awr y dydd. Yn yr achosion gwaethaf, ni chafodd carcharorion eu datgloi o gwbl am un o'r ddau ddiwrnod ar benwythnos, a chafodd eraill ddim ond 45 i 60 munud. Dywedodd carcharorion wrthym fod hyn yn achosi cryn dipyn o rwystredigaeth.

'Mae'n ddigalon, 23 awr a hanner ar benwythnosau a dim cyfleoedd, ac maen nhw'n meddwl tybed pam ein bod yn camymddwyn.' (Carcharor)

1.3 Roedd yr amser a dreuliwyd dan glo ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn hwy nag yn ystod yr wythnos bron ym mhob carchar y buom yn ymweld ag ef. Er gwaethaf terfynu cyfyngiadau'r pandemig, dangosodd ein harolwg mai dim ond 5% o ddynion oedd wedi cael eu datgloi am fwy na 10 awr yn ystod yr wythnos, ond roedd hyn wedi gostwng i ddim ond 2% ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul.

**Ffigur 2: Amser allan o'r gell, ar benwythnosau ac yn ystod yr wythnos, 2022–23, carchardai yng Nghymru a Lloegr.**




Ffynhonnell: Arolygon carcharorion Arolygaeth Carchardai EF

1.4 Fodd bynnag, ymysg carcharorion benywaidd roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng amser wedi'u datgloi yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau; roedd dwy ran o dair wedi'u datgloi am lai na dwy awr ar ddydd Sadwrn a dydd Sul o'i gymharu â 36% ar ddiwrnod arferol yn ystod yr wythnos.

1.5 Roedd yr amser roedd dynion yn ei dreulio dan glo hefyd yn amrywio yn ôl y math o garchar. Mewn carchardai lleol, canfu ein harolwg fod tri chwarter yn cael eu datgloi am lai na dwy awr y dydd, o'i gymharu â 54% mewn carchardai hyfforddi. Roedd gan y rheini mewn carchardai agored lawer mwy o amser allan o'u cell, ac roedd carcharorion mewn sefydliadau diogel iawn hefyd yn treulio llai o'u penwythnosau dan glo.

**Ffigur 3: Carcharorion yn dweud eu bod fel arfer yn treulio llai na dwy awr o'u cell ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul arferol, 2022-23, carchardai dynion yng Nghymru a Lloegr.**




Ffynhonnell: Arolygon carcharorion Arolygaeth Carchardai EF

1.6 Honnodd arweinwyr fod prinder staff cronig yn golygu nad oeddent yn gallu cynnal trefn gyda mwy o amser allan o'r gell ar benwythnosau. Ar ben hynny, roedd trefniadau oedd eisoes yn gyfyngedig yn aml yn cael eu cwtogi hyd yn oed ymhellach gan brinder staff acíwt ac anrhagweladwy. Yn bryderus, mewn un carchar y buom yn ymweld ag ef dywedwyd wrthym fod swyddogion y carchar yn gweithio shifftiau hir – rhai dros 24 awr heb doriad digonol – am nad oedd digon o staff. Ar ôl gweithio drwy'r dydd yn y carchar, roedd staff wedi gwirfoddoli i oruchwylio dros nos ar gyfer carcharorion a oedd yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Mewn carchar arall, fodd bynnag, gwelsom staff yn eistedd o gwmpas yn hytrach na chynnig gweithgareddau neu gymorth ychwanegol i garcharorion, ac roedd rhai carchardai y buom yn ymweld â nhw yn dal i ddatgloi carcharorion mewn grwpiau bach – system a gyflwynwyd yn ystod y pandemig sy'n dal yn gyfyngedig iawn o ran amser allan o'r gell.




**Hysbysiad hen ffasiwn yn yr ystafell gyswllt yn Brinsford**

> ‘Yr holl amser mae wedi bod yn ddiffyg staff, diffyg staff, diffyg staff.’
> (Carcharor)

## Dim digon i’w wneud ar yr adain

1.7 Roedd amser cyfyngedig y tu allan i’r gell yn atal carcharorion rhag gallu gwneud yr hyn yr oedd arnynt ei angen, fel gwneud galwad ffôn i’r teulu, gofyn i staff am gyngor, cael rhywfaint o amser yn yr awyr iach, cymdeithasu gyda’u cymheiriaid neu gael cawod. Mewn un carchar, dywedodd carcharor wrthym:

> ‘Rwyf wedi bod yma chwe mis ac nid wyf erioed wedi cael cawod ar ddydd Sadwrn.’

1.8 Yn y cyfamser, fel y gwelsom yn ystod y pandemig, roedd y cyfnod pan oedd carcharorion yn cael eu cloi dros y penwythnos – mewn rhai achosion yn dechrau o brynhawniau Gwener – yn debygol o gael effaith niweidiol ar eu llesiant meddyliol. Dywedodd un fenyw wrthym:

‘Mae’n annynol. Fyddwn i ddim yn trin anifail fel hyn. Rydw i wedi bod yma dair wythnos ac rydw i’n lwcus os ydw i’n cael bod allan am awr y dydd ar benwythnosau – mae mor niweidiol i’ch iechyd meddwl.’

1.9 Gallai lleiafrif o garcharorion – er enghraifft y rheini sydd ar adain well neu’r rhai sydd eu hangen ar gyfer gwaith fel swyddogion neu lanhawyr – ddisgwyl cael eu datgloi am fwy o amser. Fodd bynnag, gan adlewyrchu’r patrwm yn ystod yr wythnos, roedd carcharorion ar lefel sylfaenol y cynllun cymhelliant, neu’r rheini a oedd yn cael eu gwahanu, yn wynebu trefniadau gwael iawn, yn aml dim ond 30 munud i awr y dydd allan o’u celloedd.

1.10 Roedd carcharorion yn gorfod defnyddio’r amser cyfyngedig hwn i gyflawni tasgau domestig hanfodol fel cael cawod, cael deunyddiau glanhau, archebu ymweliadau, cyflwyno ceisiadau, cwynion a dewisiadau bwydlen, neu fynd allan i gael awyr iach. Roedd carcharorion heb fynediad at ffonau neu gawodydd yn y gell yn arbennig o ddifreintiedig yn hyn o beth. Prin oedd y cyfleoedd i gymdeithasu neu gysylltu gyda chymheiriaid.

‘Sut mae hyn yn gyswllt? Rydych chi i fod i gael newid cit, cawod... dydy hynny ddim yn gyswllt. Mae cyswllt i fod i olygu siarad â phobl, ymlacio.’ (Carcharor)

1.11 Fodd bynnag, pan oedd amser carcharorion heb eu cloi yn cynnwys cyfnod o gyswllt, yn aml nid oedd llawer iddynt ei wneud ac ychydig o weithgareddau cyfoethogi y gallent gymryd rhan ynddynt. Hyd yn oed lle’r oedd offer cyfyngedig a sylfaenol ar gael, fel byrddau pŵl, roeddent yn aml wedi torri neu ni ellid eu defnyddio. Er enghraifft, gwelsom garcharorion yn eistedd ar fwrdd tenis bwrdd am nad oedd pêl i chwarae â hi.

‘Does dim bwrdd pŵl, dim tennis bwrdd, rydym yn eistedd yn siarad am gyffuriau drwy’r dydd.’ (Carcharor)



**Byrddau tennis bwrdd heb fatiau na pheli yn Brinsford**

1.12 Dywedodd carcharorion eu bod yn teimlo’n ddiflas a llesg ar benwythnosau. Dywedodd un wrthym:

‘... dim llawer i’w wneud. Mae penwythnosau’n llusgo, yr un hen bethau – pŵl, ar ôl i chi gael gêm, mae popeth yr un fath. Rydyn ni’n sefyll yn sgwrsio dros y rheiliau.’

1.13 Roedd glanhawyr adain yn dal i allu gwneud eu gwaith yn y rhan fwyaf o sefydliadau, felly roedd ardaloedd cymunedol yn dal mor lân – neu fudr – ag yr oeddent yn ystod yr wythnos. Pan nad oedd glanhawyr adain yn cael eu datgloi, dirywiodd yr amgylchedd yn gyflym, gyda biniau’n gorlifo a phentyrrau o fagiau sbwriel yn aros i gael eu cario allan.



**Sbwriel wedi'i bentyrru yn Garth (chwith) a bin yn gorlifo yn Rochester**

1.14 Yn yr un modd ag yn ystod yr wythnos, ychydig iawn o garcharorion oedd yn gallu bwyta'n gymunedol ar benwythnosau; dim ond mewn tri o'r 11 carchar y buom yn ymweld â nhw ac, hyd yn oed wedyn, dim ond i rai grwpiau o garcharorion (er enghraifft, y rheini ar lefel uwch y cynllun cymhelliant). Roedd hyn yn gyfle a gollwyd – yn enwedig mewn sefydliadau â digon o staff i oruchwylio'r adain – er mwyn caniatáu mwy o amser allan o'r gell i garcharorion a chymdeithasu. Nid oedd gan y rhan fwyaf o garcharorion fynediad at gyfleusterau hunan-arlwyo a, phan roedd ganddynt hynny, roedd yr amser cyfyngedig allan o'r gell a'r angen i flaenoriaethu tasgau domestig fel cael cawodydd yn golygu nad oeddent bob amser yn gallu eu defnyddio. Er enghraifft, mewn un carchar gwelsom fod gan un adain un microdon ar gyfer 50 o garcharorion.



**Bwrdd bwyd heb ei ddefnyddio yn Brinsford (chwith) ac ardal hunan-arlwyo yn Garth**

1.15 Roedd y carcharorion fel arfer yn cael cinio poeth, a gasglwyd ganddynt wrth y cownter arlwyo, a phryd nos oer a oedd yn cael ei weini wrth eu drws ynghyd â brecwast ar gyfer y diwrnod canlynol. Roedd prydau bwyd yn aml yn cael eu gweini'n llawer rhy gynnar – am 11am mewn un carchar y buom yn ymweld ag ef, gyda'r pryd nos a brecwast ar gyfer y diwrnod canlynol yn cael eu danfon erbyn 3.30pm mewn rhai sefydliadau. Roedd y pryd nos yn cynrychioli diwedd y dydd i garcharorion; wedyn cawsant eu cloi tan y diwrnod canlynol ac nid oedd cysylltiad gyda'r nos.

**Astudiaeth achos: bywyd mewn carchar lleol dros y penwythnos**

Roedd y drefn dros benwythnos a gyhoeddwyd yn rhoi awr allan o'r gell i'r rhan fwyaf o garcharorion yn ystod y penwythnos. Roedd hyn ar gyfer cawodydd, ymarfer corff a gweithgareddau strwythuredig ar yr adain.

Ac eithrio casglu eu pryd bwyd, ni chafodd y rhan fwyaf o garcharorion amser allan o'r gell ar ddydd Sadwrn.

Dros yr wyth wythnos flaenorol, roedd y drefn wedi cael ei chwtogi bob dydd ar wahân i ddiwrnod ein harolygiad, ac roedd holl elfennau'r drefn yn fwy tebygol o gael eu canslo na'u cyflawni.

Cafodd y pryd poeth, cinio rhost, ei weini am 11am ddydd Sul a gwelsom y pryd nos oer, ynghyd â brecwast ar gyfer y diwrnod canlynol, yn cael ei ddanfon am 3pm.

Nid oedd y llyfrgell yn agored ar y penwythnos, a dim ond 5% o'r boblogaeth oedd yn defnyddio'r gampfa yn gyson.

## Dim llawer o weithgarwch ar y penwythnos

1.16 Roedd cyfleoedd i garcharorion adael yr adain ar benwythnosau yn aml wedi'u cyfyngu i sesiynau campfa i'r rheini sy'n ddigon ffodus i'w defnyddio, mynd i addoli ar y cyd, ac i lond llaw o swyddogion cegin, gwahanu a derbynfa fynd i wneud eu gwaith. Mae Tabl 1 yn nodi'r ystod o weithgareddau a welsom yn cael eu cynnig yn yr 11 carchar a arolygwyd gennym.

1.17 Caewyd y llyfrgell ar benwythnosau yn yr holl garchardai yr ymwelwyd â hwy. Roedd un sefydliad yn bwriadu darparu rhywfaint o fynediad i'r llyfrgell ond canfu nad oedd ganddynt ddigon o staff i agor y llyfrgell ar y rhan fwyaf o benwythnosau. Dywedodd carcharor wrthym am ei rwystredigaeth nad oedd ganddo lyfr i'w ddarllen yn ei gell gan nad oedd wedi gallu mynd i'r llyfrgell ers cyrraedd y carchar rai wythnosau'n ôl. Yn fwy cadarnhaol, roedd gan garchar arall y buom yn ymweld ag ef lyfrgelloedd bychan ar yr adain y gallai carcharorion eu defnyddio.

1.18 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion oedd yn arddel ffydd fwyafrifol yn gallu cael mynediad at gydaddoli ar benwythnosau. Fodd bynnag, roedd hyn weithiau'n gwrthdaro â gweithgareddau eraill fel mynd i'r gampfa ac ymweliadau cymdeithasol, a oedd yn cyfyngu ar bresenoldeb.

1.19 Roedd y rhan fwyaf o garchardai'n cynnal o leiaf rhai sesiynau campfa ar y penwythnos, er bod nifer y carcharorion a allai fynd i'r gampfa a'r cysondeb o ran pa sesiynau a gynigiwyd yn amrywio'n fawr. Roedd arweinwyr rhai sefydliadau'n cydnabod pwysigrwydd campfeydd i iechyd a lles corfforol a meddyliol carcharorion ac yn sicrhau eu bod yn cael eu staffio'n llawn dros y penwythnos, bod digon o sesiynau i garcharorion, a bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael. Roedd un carchar yn cynnal sesiwn rhedeg mewn parc ar benwythnosau, lle roedd tua 100 o garcharorion yn cymryd rhan, ac roedd gan un arall gêm yn erbyn tîm pêl-droed cymunedol ar y safle, a oedd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, dim ond sesiynau i nifer cyfyngedig o garcharorion y gallai sefydliadau eraill eu cynnig oherwydd diffyg staff, ac mewn rhai sefydliadau roedd y gampfa ar gau drwy'r penwythnos.

1.20 Nid oedd yn anghyffredin i garcharorion ddweud wrthym fod gadael yr adain ar benwythnosau yn golygu eu bod yn colli allan ar rywbeth arall. Er enghraifft, mewn un carchar roedd yn rhaid i swyddogion capel ddewis rhwng mynd i'r gwaith a chael amser yn yr awyr iach; mewn un arall roedd mynychu capel yn golygu ildio cyswllt; ac mewn un arall, roedd gweithwyr y gegin yn gweithio rhwng 9am a 3pm ond roeddent yn cael eu cloi pan oeddent yn dychwelyd ac nid oeddent yn cael amser cyswllt. Roedd amseroedd aros hir am feddyginiaeth hefyd yn golygu bod carcharorion mewn llawer o sefydliadau yn aml yn colli capel, sesiynau campfa neu amser y tu allan.



**Offer ymarfer corff awyr agored heb ei ddefnyddio yng Nghaerlŷr**

1.21 Er bod y rhan fwyaf o'r carchardai y buom yn ymweld â nhw wedi rhoi rhywfaint o gyfle i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored dros y penwythnos, roedd hyn yn aml yn cael ei gyfyngu i hanner awr neu'n gwrthdaro â'r cyfle i gael cawod neu gyflawni tasgau domestig eraill. Dywedodd carcharor wrthym am effaith diffyg mynediad i'r awyr agored:

> 'Mae'n eich gwneud yn ansefydlog yn feddyliol. Dydw i ddim wedi cael dim awyr iach ers dyddiau. Mae'n annerbyniol.'

**Tabl 1: Gweithgareddau a gynigir ar benwythnosau yn ôl y sefydliad a arolygwyd**

| Sefydliad | Amser cyfartalog y tu allan i'r gell (oriau bob dydd)* | % y diwrnod dan glo | Mynediad campfa | Mynediad llyfrgell | Ymweliadau cymdeithasol | Gweithgareddau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aylesbury | 2 | 47% | Na | Na | Oes | |
| Berwyn | 2 | 50% | Da | Na | Oes | Rhedeg yn y parc ar foreau Sadwrn |
| Brinsford | 1 | 60% | Da | Na | Oes | Gêm bêl-droed wythnosol yn erbyn tîm o'r tu allan |

| Sefydliad | Amser cyfartalog y tu allan i'r gell (oriau bob dydd)* | % y diwrnod dan glo | Mynediad campfa | Mynediad llyfrgell | Ymweliadau cymdeithasol | Gweithgareddau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Channings Wood | 4 | 24% | Da | Na | Oes | |
| Eastwood Park | 2.5 | 45% | Cyfyngedig | Na | Oes | |
| Garth | 3 | 44% | Cyfyngedig | Na | Oes | |
| Caerlŷr | 1.5 | 40% | Cyfyngedig | Na | Oes | |
| Pentonville | 1 | 40% | Cyfyngedig iawn | Na | Oes | |
| Rochester | 2.5 | 51% | Cyfyngedig | Na | Oes | |
| Stafford | 5 | 3% | Da | Weithiau | Oes | |
| Thameside | 3 | 44% | Rhesymol | Na | Oes | |

* Cyswllt/tasgau domestig (amser ar gyfer tasgau gweithredol, fel casglu meddyginiaethau a phrydau bwyd) heb eu cynnwys.

## Cyswllt â theulu a ffrindiau ar benwythnosau

1.22 Roedd ymweliadau cymdeithasol ar gael ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn yr holl garchardai yr ymwelwyd â hwy, a oedd yn gadarnhaol. Er bod y rhain yn aml yn brysur, nid oeddent yn orlawn. Roedd oedi o ran amseroedd dechrau ymweliadau a rhai slotiau ymweld byr, awr o hyd, wedi achosi rhwystredigaeth i garcharorion yr oedd eu teuluoedd wedi teithio'n bell. Roedd galwadau fideo diogel ar gael dros y penwythnos mewn dim ond tua hanner y carchardai y buom yn ymweld â nhw, ond ychydig o slotiau oedd ar gael ac roedd y nifer a oedd yn eu defnyddio yn isel.

1.23 Roedd carcharorion â ffonau yn y gell yn gallu gwneud galwadau ffôn ar adegau a oedd yn gyfleus i'w teuluoedd, a dywedwyd wrthym fod hyn wedi eu helpu i gadw mewn cysylltiad. Roedd carcharorion heb ffonau yn eu celloedd ond yn gallu gwneud galwadau ffôn yn ystod eu hamser cyfyngedig iawn y tu allan i'r gell, ac roedden nhw'n treulio'r amser hwn yn ciwio, ac ychydig iawn o breifatrwydd oedd gan y rheini mewn celloedd a rennir gyda ffonau gan eu bod yn cael eu cloi gyda'i gilydd am y rhan fwyaf o'r dydd.

## Llai o gymorth ar gael ar benwythnosau

1.24 Ynghyd â'r amser cyfyngedig iawn allan o'r gell yn ystod yr wythnos, dywedodd carcharorion wrthym fod hyn wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles, oherwydd yr amser a dreulir dan glo. Mae eu gallu i gael gafael ar gymorth yn anffurfiol gan staff neu gymheiriaid yn cael ei lesteirio.

> ‘Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, maen nhw’n dioddef yn dawel y tu ôl i’w drysau...’ (Carcharor)

1.25 Roedd llai o staff ar ddyletswydd nag yn ystod yr wythnos, ac roedd y swyddogion hefyd yn llai tebygol o fod yn gyfarwydd â’r adain, y carcharorion a’u hanghenion. Gwelsom lawer o staff yn aros yn agos at swyddogion eraill ac mewn swyddfeydd, yn hytrach na threulio amser ar y pen grisiau, a arweiniodd at ychydig iawn o ryngweithio un-i-un â charcharorion. I garcharorion a oedd yn ei chael hi’n anodd, prin oedd y cyfleoedd i gael sylw aelod o staff heb bwyso ar eu cloch galw mewn argyfwng.

1.26 Ychydig iawn o sesiynau gwaith allweddol a gynhaliwyd ar benwythnosau, a oedd yn gyfle arall a gollwyd i sicrhau bod carcharorion sy’n cael trafferth gyda’r cyfnodau estynedig dan glo ar benwythnosau yn gallu cael sgwrs ystyrlon â swyddog a oedd eisoes yn eu hadnabod, ac yn gyfarwydd â'u hamgylchiadau a’u hanghenion.

> ‘Pobl sy’n cael pethau’n anodd, sy’n methu ymdopi – tydyn nhw’n cael dim.’ (Carcharor)

1.27 Yn gyffredinol, nid oedd adolygiadau achos ar gyfer carcharorion a gefnogir gan y broses ACCT (asesu, gofal yn y ddalfa a rheoli achosion gwaith tîm ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad) yn cael eu cynnal ar benwythnosau gan nad oedd rhai o’r cyfranwyr angenrheidiol, fel gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, ar gael. Roedd Mynediad at Wrandawyr (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i ddarparu cymorth gan gymheiriaid i garcharorion eraill) yn dda mewn rhai sefydliadau, gyda staff a charcharorion fel ei gilydd yn dweud y byddai modd datgloi Gwrandawyr pe bai carcharor yn gofyn am gael siarad ag un. Fodd bynnag, fe wnaethom gwrdd ag un carcharor oedd dan oruchwyliaeth gyson oherwydd ei risg o hunan-niweidio a oedd ond wedi gadael ei gell i gasglu meddyginiaeth ers cyrraedd y carchar ar y dydd Gwener. Nid oedd y person a oedd yn ei wylio yn gwybod ei enw.

1.28 Gallai carcharorion ddal i gael eu meddyginiaeth ar y penwythnos, ar adeg cyffelyb i’r drefn yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, gallai ciwiau fod yn hir, ac mewn llawer o sefydliadau, dywedodd carcharorion wrthym fod ciwio am feddyginiaeth ar benwythnosau yn golygu colli allan ar gyswllt, amser yn y gampfa neu amser y tu allan.

Nid oedd y rhan fwyaf o garchardai yn trefnu apwyntiadau meddygol rheolaidd ar gyfer penwythnosau, ond roeddent yn darparu gwasanaeth brys 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, mewn un carchar, roedd mynediad at ofal iechyd brys hyd yn oed yn arbennig o wael, a gwelsom garcharor yr amheuwyd ei fod wedi torri ei law yn cael gwybod nad oedd neb ar gael i fynd ag ef am belydr-X a byddai’n rhaid iddo aros tan y diwrnod canlynol (dydd Llun).

# Atodiad I   Methodoleg

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023. Fe wnaeth arolygwyr gynnal 11 o ymweliadau undydd dirybudd naill ai ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul ag 11 o garchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr. Dewiswyd y safleoedd fel bod ystod o wahanol leoliadau daearyddol a mathau o garchar o ran eu swyddogaeth yn cael eu cynrychioli.

Y carchardai yr ymwelwyd â hwy oedd:

CEF Aylesbury
CEF Berwyn
CEF Brinsford
CEF Channings Wood
CEF Eastwood Park
CEF Garth
CEF Caerlŷr
CEF Pentonville
CEF Rochester
CEF Stafford
CEF Thameside

Ym mhob sefydliad, fe wnaethom ofyn am wybodaeth am y drefn a staffio, arolygu gwahanol rannau o'r carchar, cynnal archwiliadau ar bob adain, cynnal grwpiau ffocws lle bo hynny'n bosibl a siarad â charcharorion am eu profiad o'r drefn ar benwythnos. Roeddem hefyd wedi gofyn am wybodaeth ddilynol gan bob un o'r sefydliadau roeddem wedi ymweld â nhw, gan amlinellu'r drefn sydd ar waith ac unrhyw gwtogi dros yr wyth penwythnos blaenorol.

Cynhaliwyd y prosiect yn unol ag egwyddorion moesegol Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer gweithgareddau ymchwil (gweler https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-ourinspections/research/ethical-principles-for-research). Rhoddodd yr arolygwyr sylw penodol i les y carcharorion y buom yn siarad â nhw, gan roi gwybod i staff y carchar am unrhyw bryderon diogelu, a chadw at brotocol diogelu'r Arolygiaeth ar gyfer oedolion (gweler https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wpcontent/uploads/sites/4/2019/12/HMIP-Safeguarding-Adults-Protocol-Nov-2019.pdf).

## Tîm Prosiect

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Lindsay Jones (Arolygydd) gyda chymorth Sara Pennington (Arweinydd Tîm). Roedd y tîm prosiect a gwaith maes yn cynnwys y staff arolygu canlynol: Jane Boys, Ian Dickens, David Foot, Sumayyah Hassam, Natalie Heeks, Amelia Horn, Angela Johnson, Angus Jones, Chelsey Pattinson, Kellie Reeve, Paul Rowlands, Alex Scragg, Rebecca Stanbury, Nadia Syed, Shaun Thomson a Donna Ward.

# Atodiad II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws. Os bydd angen eglurhad arnoch o unrhyw dermau eraill, edrychwch ar y rhestr dermau hirach sydd ar gael ar ein gwefan yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

**Cynllun gweithiwr allweddol**
Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystâd gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchar lwyth achosion o tua chwe charcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol gyda charcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu cadarnhaol.

**Arweinydd**
Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif ar lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

**Rhedeg yn y Parc**
Bob bore Sadwrn, mae cannoedd o bobl mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc yn cerdded, loncian neu'n rhedeg 5km neu'n gwirfoddoli i helpu ar y cwrs, fel rhan o'r gymuned rhedeg yn y parc fyd-eang.

**Galwadau fideo diogel**
System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn llwytho ap i lawr i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lwytho ID dilys i fyny.

**Amser allan o'r gell**
Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgareddau pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd i gysylltu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

Hawlfraint y Goron 2023

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai EM
3ydd llawr
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EM oni nodir yn wahanol.